YSGOL BRYNREFAIL

KATIE YN CYRRAEDD CANT !

Na, na, na tydym ddim yn sôn am ei hoedran ond yn hytrach ei llwyddiant ! Y mae pob myfyriwr yn y Chweched Dosbarth yn gorfod cyflawni 30 awr o waith gwirfoddol o dan gynllun Bagloriaeth Cymru. Penderfynodd Katie wirfoddoli yn Ysbyty Gwynedd gyda'r W.R.V.S. a mwynhaodd ei hunain cymaint fe arhosodd ymlaen ac erbyn hyn wedi ennill tystysgrif i ddathlu 100 awr o waith gwirfoddol.
Yng ngeiriau Katie " Dwi di wir mwynhau gweithio yn Ysbyty Gwynedd, cyfarfod pobl a'u helpu a dod i adnabod awyrgylch ysbyty".
Mae Katie yn gobeithio astudio ymhellach mewn Prifysgol ac wedi graddio yn gobeithio cael gwaith mewn ysbyty.